# Dewch Canwn

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Sosban Fach (tradd)




1. Dewch, canwn yn llawen i’r Arglwydd,
I’r Graig sy’n ein hachub rhown hŵre (hŵre!);
A down i'w bresenoldeb â diolch,
A gweiddi ein moliant iddo Ef.

*Duw mawr yw ein Harglwydd byw,*
*Brenin mawr y ddaear lawr,*
*Dewch, canwn yn llawen iddo Ef.*

2. Mae crombil y ddaear yn ei ddwylo,
A chopa pob mynydd uchel sydd;
A'i eiddo Ef yw’r môr, Ef a’i greodd,
A’i ddwylo a luniodd y tir sych.

3. Dewch bawb oll ynghŷd i'w addoli,
I'n Duw ni ymgrymwn i lawr;
Dewch hen ac ifanc, plygwn ein gliniau
O flaen ein Gwneuthurwr mawr.

4. Ein Duw yw, a ni yw ei bobl,
Y defaid sy’n pori ar ei dir;
Os gwrandwch ar ei lais Ef heddiw
Cewch brofi ei nerth yn wir.

5. Gogoniant i’r Tad ac i'r Mab, a
Gogoniant i’r Ysbryd Glân,
Mae yma nawr, fel roedd yn y dechrau,
A bydd yn oes oesoedd, Amen.

©